

Trefn y Suliau (parhad)

6 Medi

Aberduar	10.00 y bore	Cymun
Caersalem	2.00 y prynhawn	Cymun
Noddfa	6.00 yr hwyr	Cymun

13 Medi

Aberduar	10.00 y bore	Mr Gwilym Jones
Bethel	10.15 y bore	Cymun
Seion	1.30 y prynhawn	Cymun
Brynhafod	3.00 y prynhawn	Cymun

20 Medi

Noddfa	9.30 y bore	
Aberduar	11.00 y bore	
Brynhafod	7.30 yr hwyr	Cymanfa Ddiolchgarwch

27 Medi

Aberduar	10.00 y bore	Parchg Wynn Vittle
Seion	2.00 y prynhawn	Oedfa unedig i Frynhafod a Seion o dan ofal y Parchg Wynn Vittle
Caersalem	2.30 y prynhawn	Oedfa unedig i Gaersalem, Noddfa a Bethel o dan ofal y Parchg D Hugh Matthews

Rhaghyrbys 4 Hydref:

Bethel	5.00 yr hwyr	Oedfa'r Cylch - y chwech eglwys ynghyd
--------	--------------	---

Cynhadledd Genedlaethol y Senana

Llanbedr Pont Steffan (yn ystafell Lloyd Thomas yn y coleg)

Mae angen un ai cofrestru gyda Carys Jones, Bodafon, 1 Godre'r Graig, Pandy, Glyn Ceiriog, Llangollen, LL20 7PE, (01691 718603) neu roi gwybod i Jill erbyn 9fed o Awst. Cynhelir y gynhadledd yn gynnar eleni, sef o'r 1af i'r 3ydd o fis Medi. Disgwylir cenhadon o wlad Chad i rannu eu profiadau wedi bod yn gweithio yno am gyfnod. Croeso i chi ddod chwiorydd i fwynhau astudiaeth ac neges a phrofiad ynghyd.

Diolch am ddod ar y trip! Gobeithio ei ch bod wedi mwynhau bawb, gymaint â fi. Diolch i Dewi am drefniadau bws a bwyd.

Mudiad y Chwiorydd

Edrychwn ymlaen at groesau cyfarfodydd cenedlaethol Mudiad y Chwiorydd i'r Cylch, a'r cyrddau i'w cynnal yn Aberduar ar

16 Medi 2015 am 1.30 a 5.30

Diolch i bawb am eu gwaith wrth y trefniadau hyd yn hyn.

Darperir te rhwng yr oedfaon, a gofynnir i swyddogion eglwysi'r Cylch gynorthwyo drwy sicrhau tocynnau ar gyfer eu haelodau drwy anfon sicc am £6 y tocyn, yn daladwy i 'Capel Seion', a gydag amlen gyda'ch cyfeiriad, a stamp arni, **erbyn 28ain o Awst 2015**. Mae angen anfon at Mrs Jean Evans, Glynteg, Pontsian, Llandysul SA44 4UD, gan nodi unrhyw anghenion deietegol arbennig os gwelwch yn dda. Os byddwch chi'n cymryd rhan yn oedfa'r hwyr, mae modd trefnu tocyn ei-steddiad cyntaf, felly os dymunwch, nodwch hynny wrth archebu, yn lle eich bod chi'n gorfod rhuthro o'r festri i'r capel.

Erbyn 17 Medi 2015 byddaf wedi gofyn am lawer iawn o gymwynasau gan aelodau grasol y Cylch, yn frodyr ac yn chwiorydd, felly dyma ddiolch ymlaen llaw i chi i gyd!

Diolchgarwch

Daeth hi'n oedfaon diolchgarwch eglwysi'r Cylch felly dyma restr o'r trefniadau mor belled â'u bod yn hysbys hyd yn hyn:

20 Medi	Brynhafod	7.30 yr hwyr	Cymanfa Ganu Diolchgarwch
28 Medi	Noddfa	7 yr hwyr	Parchg Alwyn Daniels
1 Hydref	Seion	7 yr hwyr	Parchg Peter Cutts, Caerfyrddin
5 Hydref	Bethel	7 yr hwyr	Parchg Peter Cutts, Caerfyrddin
15 Hydref	Caersalem	7 yr hwyr	Parchg Peter Cutts, Caerfyrddin
21 Hydref	Aberduar	2 y prynhawn a 7 yr hwyr	Parchg Alwyn Daniels

Oedfa'r aelodau yn Noddfa

Daeth cynulliad teilwng ynghyd i Noddfa ar 19 Gorffennaf i oedfa unedig yng ngofal y Chwiorydd, yn seiliedig ar hanes Efa, sef y wraig gyntaf i droedio'r ddaear yn ôl y Beibl. Roedd yr oedfa yn rhan o brosiect Mudiad Chwiorydd Undeb Bedyddwyr Cymru. Cymerwyd rhan gan Beryl a Jennie (Bethel), June (Caersalem) a Delyth, Eiry, Erina, Janet, Llinos, Siân a Verina (Noddfa). Alwena (Noddfa) fu'n gwasanaethu wrth yr organ.

Diolchodd John i bawb am eu gwaith canmoladwy gan gyfrannu at wasanaeth arbennig iawn. Hoffwn ddatgan fy ngwerthfawrogiad i'r Chwiorydd am eu parodrwydd i gymryd rhan. Gobeithio y bydd y dynion yn ymateb i'r alwad y tro nesaf!

(Diolch i Janet Evans am baratoi'r oedfa ac am yr adroddiad.)

Tymor nesaf: Ysgol Sul Noddfa yn aildechrau 4 - 5 dydd Gwener 4 Medi. **Clwb Hwyl cyntaf Brynhafod** - nos Fercher 30 Medi, am 6, hwyl i'r plant a phaned ac oedfa-uwchben-paned i bawb arall.


Cymdeithas Genhadol y Bedyddwyr (BMS) - y *Senana* (sef adran y chwiorydd)

Daeth cynrychiolaeth o chwiorydd o'r chwech capel ynghyd i Frynhafod ar Orffennaf 8fed. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan Eiddwen ac Enfys Hatcher. Cyflwynwyd y wraig wadd, Menna Machreth gan y gweinidog a diolchodd iddi am ei phresenoldeb. Mae Menna yn wraig brysur iawn ac fel rhan o'i gwaith, hi sy'n gyfrifol am hyrwyddo'r BMS ymysg Eglwysi Cymru. Cafwyd ganddi fraslun o waith amhrisiadwy'r BMS yn sefydlu Canolfan Famolaeth yn Chad a hefyd y gwaith a wnaed yn dilyn y ddaeargryn yn Nepal. Bellach maent yn canolbwyntio ar ymgyrch newydd, sef 'Urddas' sef 'Safiad yn erbyn trais ar sail Rhywedd'. Mae'n siwr bod yr adroddiadau byw wedi ein hatgoffa o bwysigrwydd y gymdeithas, a'n dyletswyddau fel aelodau.

Ar ddiwedd y Cyfarfod trafodwyd y posibilrwydd o fabwysiadu Cenhaden Cyswllt yn y dyfodol. Cafwyd adroddiad ariannol gan Sulwen Lloyd yn nodi bod y Cylch wedi cyfrannu £418.85 y llynedd. Darllennwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf gan Mair Jones.

I ddilyn mwynhaodd pawb baned yn y festri – diolch i bob un am eu cyfraniadau i'r noson. *(Diolch i Mair Jones am yr adroddiad.)*

Diolch i bob un sy'n trefnu dyblygu a dosbarthu'r *Deufis*.



Deufis

Eglwysi Bedyddwyr Gogledd Teifi

Awst a Medi 2015

Trefn oedfaon y Sul

Mae'r oedfaon yn gyhoeddus a chroeso i bob un fynychu unrhyw un o'r oedfaon sy'n gyfleus. Mae'r amseroedd yn gywir wrth fod y Deufis yn dod allan, ond os ydych am gael y manylion diweddaraf, beth am ddilyn @BedyddGogTeifi ar Drydar (Twitter)?

2 Awst

Aberduar	10.00 y bore	Cymun
Caersalem	2.00 y prynhawn	Cymun
Noddfa	6.00 yr hwyr	Cymun

9 Awst

Bethel	10.15 y bore	Cymun
Seion	1.30 y prynhawn	Cymun
Brynhafod	3.00 y prynhawn	Cymun

16 Awst - dim oedfa

23 Awst

Bethel	10.15 y bore	Oedfa unedig i Gaersalem, Noddfa a Bethel o dan ofal y Parchg Athro Densil Morgan
--------	--------------	---

30 Awst

Shiloh	10.30 y bore	Oedfa Eisteddfod Pantyfedwen o dan ofal Mrs Mererid Hopwood
--------	--------------	---

drosodd/...